

# TRIBIWNLYS ADOLYGU IECHYD MEDDWL CYMRU

## CYFARWYDDYD YMARFER

### DATGANIADAU AC ADRODDIADAU I DRIBIWNLYSOEDD ADOLYGU IECHYD MEDDWL YNG NGHYMRU

---

1. Yn y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn mae “y Ddeddf” yn cyfeirio at Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007). Mae “y Rheolau” yn cyfeirio at Reolau Tribiwnlys Iechyd Meddwl Cymru 2008.
2. Mae Rheol 15 o'r Rheolau yn nodi'r camau y mae'n rhaid i'r Tribiwnlys, Awdurdod Cyfrifol a'r Ysgrifennydd Gwladol eu cymryd pan gaiff y Tribiwnlys gais neu atgyfeiriad o dan y Ddeddf drwy gyfeirio at yr Atodlen i'r Rheolau Rhannau A, B, C a D. (*Nodir Rheol 15 a'r Atodlen yn llawn yn yr Atodiad i'r Cyfarwyddyd Ymarfer*).
3. Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn wedi ei fwriadu i egluro gofynion Rheol 15 a'r Atodlen i'r Rheolau ac mae'n nodi'r wybodaeth ychwanegol y mae'r Tribiwnlys yn gofyn amdani drwy gyfeirio at y categorïau a ganlyn o gleifion:
  - (A) CLEIFION MEWNOL (HEB EU CYFYNGU AC WEDI EU CYFYNGU)
  - (B) CLEIFION CYMUNEDOL
  - (C) CLEIFION GWARCHEIDIAETH
  - (D) CLEIFION A RYDDHAWYD YN AMODOL
  - (E) CLEIFION O DAN 18 OED.
4. Yn ychwanegol at y Rheolau, mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn hefyd yn cymryd i ystyriaeth ddarpariaethau Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Chod Ymarfer Cymru 2016 o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

CAROLYN KIRBY OBE

SYR WYN WILLIAMS

LLYWYDD            TRIBIWNLYS  
ADOLYGU IECHYD MEDDWL  
CYMRU

LLYWYDD            TRIBIWNLYSOEDD  
CYMRU

**HYDREF 2019**

## **GOFYNION CYFFREDINOL**

5. Dylai awduron pob adroddiad fod wedi cyfarfod â'r claf yn bersonol a bod yn gyfarwydd â'r claf. Os bydd adroddiad presennol yn mynd yn hen, neu os bydd statws neu amgylchiadau'r claf yn newid ar ôl i'r adroddiadau gael eu hysgrifennu ond cyn i wrandawriad y tribiwnlys gael ei gynnal, dylai awdur yr adroddiad anfon atodiad at y tribiwnlys yn ymdrin â'r sefyllfa ddiweddaraf a, lle bo angen hynny, y meini prawf statudol newydd sy'n gymwys.
6. Rhaid i bob adroddiad fod yn gyfoes, bod wedi ei baratoi'n unswydd ar gyfer y Tribiwnlys a bod â pharagraffau a thudalennau wedi eu sydd rhifo. Dylai adroddiadau fod wedi eu llofnodi ac wedi eu dyddio. Rhaid i'r ffynonellau gwybodaeth ynglŷn â'r digwyddiadau a ddisgrifir gael eu hegluro. Ni ddylai adroddiadau adrodd manylion cofnodion meddygol na bod yn atodiad i adroddiadau blaenorol (nac atgynhyrchu manylion helaeth ohonynt).
7. Dylai pob adroddiad meddygol ymdrin yn benodol â'r meini prawf statudol perthnasol y dibynnir arnynt i barhau i gadw claf o dan y Ddeddf
8. Diben y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yw sicrhau y bydd pawb sy'n darparu neu'n rhoi tystiolaeth i'r Tribiwnlys yn ymwybodol o ddyletswydd i gynorthwyo'r Tribiwnlys i gyflawni'r Amcan Pennaf a nodir yn Rheol 3 o Reolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru 2008 ac wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau statudol. Gall unrhyw fethiant i ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani yn y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn o fewn y terfynau amser a bennir olygu y bydd y Tribiwnlys yn dyroddi ragor o Gyfarwyddydau yn unol â Rheolau 18 neu 19 yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth benodedig gael ei darparu a/neu yn ei gwneud yn ofynnol drwy Wŷs i rywun ymddangos gerbron y Tribiwnlys.

### **(A) CLEIFION MEWNOL (HEB EU CYFYNGU AC WEDI EU CYFYNGU)**

9. At ddibenion y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn, mae claf yn glaf mewnol os yw'n cael ei gadw yn yr ysbyty i gael ei asesu neu ei drin ar gyfer anhwylder meddyliol, p'un a yw wedi ei dderbyn drwy brosesau cyfiawnder sifil ynteu troseddol, gan gynnwys claf wedi ei gyfyngu (h.y. claf sy'n destun cyfyngiadau arbennig o dan y Ddeddf), a chan gynnwys claf a drosglwyddwyd i'r ysbyty o'r ddalfa. Rhaid barnu bod claf yn glaf mewnol sy'n cael ei gadw mewn ysbyty hyd yn oed os yw wedi cael caniatâd i fod yn absennol, neu wedi mynd yn absennol heb ganiatâd.
10. Yn achos claf wedi ei gyfyngu sy'n cael ei gadw mewn ysbyty, gall y tribiwnlys wneud penderfyniad dros dro i orchymyn Rhyddhad Amodol ond gall ohirio ei benderfyniad nes y gellir gwneud trefniadau boddhaol. Bydd y claf yn parhau yn glaf mewnol oni bai a hyd nes bod y Tribiwnlys yn rhoi Rhyddhad Amodol yn y pen draw, felly mae'r rhan hon o'r Cyfarwyddyd Ymarfer yn gymwys.

### **Datganiad Gwybodaeth am y Claf - Cleifion Mewnol**

11. Ar ben yr wybodaeth a nodir yn rhan A o'r Atodlen i'r Rheolau, rhaid i'r awdurdod cyfrifol ddarparu'r canlynol:
  - (a) manylion unrhyw wrandawriadau tribiwnlys blaenorol a'u canlyniadau;

- (b) a yw'r claf yn dioddef unrhyw anabledd a fydd yn golygu bod ar y claf angen cymorth i gymryd rhan ym mhroses y tribiwnlys
- (c) os nad oes gan y claf alluedd i wrthwynebu i'w berthynas agosaf gael ei hysbysu am y gwrandawriad, datganiad i'r perwyl hwnnw a manylion y perthynas agosaf
- (d) enw a chyfeiriad unrhyw gynrychiolydd cyfreithiol sydd gan y claf;
- (e) adroddiad nyrsio.

### **Adroddiad Clinigydd Cyfrifol – Cleifion Mewnol**

12. Dylai'r adroddiad gael ei ysgrifennu neu ei gydlofnodi gan Glinigydd Cyfrifol y claf. Rhaid i'r adroddiad ddisgrifio'n fyr hanes meddygol perthnasol diweddar y claf a'i gyflwyniad presennol o ran iechyd meddwl, a rhaid iddo gynnwys:
- (a) a oes unrhyw ffactorau a allai effeithio ar ddealltwriaeth neu allu'r claf i ymdopi â gwrandawriad ac a oes unrhyw addasiadau y gall y tribiwnlys eu hystyried er mwyn ymdrin â'r achos yn deg ac yn gyfiawn ac yn benodol a oes gan y claf y galluedd i fod yn bresennol a chael ei gynrychioli mewn gwrandawriad tribiwnlys;
  - (b) manylion unrhyw drosedd(au) cyfeirio a hanes fforensig perthnasol arall;
  - (c) cronoleg yn rhestru ymwneud blaenorol y claf â'r gwasanaethau iechyd meddwl gan gynnwys unrhyw dderbyn i'r ysbyty, rhyddhau o'r ysbyty a galw'n ôl i'r ysbyty;
  - (d) y rhesymau dros unrhyw dderbyniad blaenorol i'r ysbyty neu alwad blaenorol yn ôl i'r ysbyty;
  - (e) yr amgylchiadau yn arwain at dderbyn y claf i'r ysbyty ar hyn o bryd;
  - (f) y cryfderau neu'r ffactorau cadarnhaol sy'n perthyn i'r claf;
  - (g) crynodeb o gynnydd, ymddygiad, galluedd a dirnadaeth y claf ar hyn o bryd;
  - (h) dealltwriaeth y claf o unrhyw feddyginiaeth ragnodedig, sut mae'n cydymffurfio â hi, a pharodrwydd tebygol y claf i'w derbyn yn y dyfodol neu i gydymffurfio ag unrhyw driniaeth feddygol briodol ar gyfer anhwylder meddyliol sydd ar gael neu a allai fod ar gael;
  - (i) manylion unrhyw ddiwyddiadau lle mae'r claf wedi ei niweidio'i hun neu bobl eraill, neu wedi bygwth niwed, neu wedi difrodi eiddo, neu wedi bygwth difrod;
  - (j) a oes cyfiawnhad dros gadw'r claf mewn ysbyty neu angen cadw'r claf mewn ysbyty (mewn achosion Adran 2), neu (ym mhob achos arall) a oes cyfiawnhad dros roi triniaeth feddygol mewn ysbyty neu angen rhoi triniaeth feddygol mewn ysbyty, er budd iechyd neu ddiogelwch y claf, neu er mwyn amddiffyn pobl eraill;
  - (k) a fyddai'r claf, pe bai'n cael ei ryddhau o'r ysbyty, yn debygol o weithredu mewn modd a fyddai'n beryglus i'r claf ei hun neu i bobl eraill;

- (l) a allai unrhyw risgiau gael eu rheoli'n effeithiol yn y gymuned, ac os felly, sut, gan gynnwys defnyddio unrhyw amodau cyfreithlon neu bwerau i alw'r claf yn ôl;
- (m) unrhyw argymhellion i'r tribiwnlys, gyda rhesymau.

### **Adroddiad Nyrsio – Cleifion Mewnol**

13. Dylai'r adroddiad gael ei ysgrifennu neu ei gydlofnodi gan y nyrs a enwyd ar gyfer y claf. O ran episod presennol y claf fel claf mewnol, rhaid i'r adroddiad roi disgrifiad byr o gyflwyniad presennol y claf o ran iechyd meddwl a rhaid iddo gynnwys:
- (a) a oes unrhyw ffactorau a allai effeithio ar ddealltwriaeth neu allu'r claf i ymdopi â gwrandawriad ac a oes unrhyw addasiadau y gall y tribiwnlys eu hystyried er mwyn ymdrin â'r achos yn deg ac yn gyfiawn;
  - (b) natur y gofal nyrsio a'r feddyginiaeth sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd;
  - (c) lefel y gwaith arsylwi sy'n gymwys i'r claf ar hyn o bryd;
  - (d) a oes gan y claf gysylltiad â pherthnasau, ffrindiau neu gleifion eraill, natur y rhyngweithio, a pha gymorth cymunedol sydd gan y claf;
  - (e) cryfderau neu ffactorau cadarnhaol sy'n perthyn i'r claf;
  - (f) crynodeb o gynnydd cyfredol y claf, ymwneud y claf â staff nyrsio, ymddygiad, cydweithrediad, gweithgareddau, hunanofal a dirnadaeth y claf;
  - (g) unrhyw adegau pan fu'r claf yn absennol heb ganiatâd tra oedd yn agored i gael ei gadw, neu adegau pan fo'r claf wedi methu dychwelyd yn unol â'r gofynion, ar ôl cael caniatâd i fod yn absennol;
  - (h) dealltwriaeth y claf o unrhyw feddyginiaeth neu driniaeth ragnodedig ar gyfer anhwylder meddyliol sydd ar gael, neu a allai fod ar gael, sut mae'n cydymffurfio â nhw, a pharodrwydd tebygol y claf i'w derbyn yn y dyfodol;
  - (i) manylion unrhyw ddigwyddiadau yn yr ysbyty lle mae'r claf wedi ei niweidio'i hun neu bobl eraill, neu wedi bygwth niwed, neu wedi difrodi eiddo, neu wedi bygwth difrod;
  - (j) unrhyw adegau pan fo'r claf wedi ei wahanu neu wedi ei atal, gan gynnwys y rhesymau pam roedd angen gwahanu neu atal y claf felly;
  - (k) a oes cyfiawnhad dros gadw'r claf mewn ysbyty neu angen cadw'r claf mewn ysbyty (mewn achosion Adran 2), neu (ym mhob achos arall) a oes cyfiawnhad dros roi triniaeth feddygol mewn ysbyty neu angen rhoi triniaeth feddygol mewn ysbyty, er budd iechyd neu ddiogelwch y claf, neu er mwyn amddiffyn pobl eraill;
  - (l) a fyddai'r claf, pe bai'n cael ei ryddhau o'r ysbyty, yn debygol o weithredu mewn modd a fyddai'n beryglus i'r claf ei hun neu i bobl eraill;
  - (m) unrhyw argymhellion i'r tribiwnlys, gyda rhesymau.

### **Adroddiad ar Amgylchiadau Cymdeithasol – Cleifion Mewnol**

14. Lle bo modd, dylai'r adroddiad gael ei ysgrifennu neu ei gydlofnodi gan Gydlynnydd Gofal y claf. Pan na fydd yr Adroddiad ar Amgylchiadau Cymdeithasol yn cael ei

ysgrifennu gan y Cydlynnydd Gofal, dylai adroddiad ar wahân gael ei ddarparu gan y Cydlynnydd Gofal yn rhoi'r wybodaeth a nodir yn adran 18 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, gan gynnwys Cynllun Gofal a Thriniaeth cyfoes. Rhaid i'r Adroddiad ar Amgylchiadau Cymdeithasol ddisgrifio'n fyr hanes perthnasol diweddar y claf a'i gyflwyniad presennol, a rhaid iddo gynnwys:

- (a) a oes unrhyw ffactorau a allai effeithio ar ddealltwriaeth neu allu'r claf i ymdopi â gwrandawriad ac a oes unrhyw addasiadau y gall y tribiwnlys eu hystyried er mwyn ymddrin â'r achos yn deg ac yn gyfiawn;
- (b) manylion unrhyw drosedd(au) cyfeirio a hanes fforensig perthnasol arall;
- (c) cronoleg yn rhestru ymwneud blaenorol y claf â'r gwasanaethau iechyd meddwl gan gynnwys unrhyw dderbyn i'r ysbyty, rhyddhau o'r ysbyty a galw'n ôl i'r ysbyty;
- (d) ymateb blaenorol y claf i gymorth cymunedol neu ôl-ofal Adran 117;
- (e) i'r graddau y maent yn hysbys, manylion y llwybr gofal a'r ôl-ofal Adran 117 y trefnir eu bod ar gael i'r claf, ynghyd â manylion y cynllun gofal arfaethedig;
- (f) pa mor debygol yw hi y bydd y cynllun gofal arfaethedig yn ddigonol ac yn effeithiol;
- (g) a oes unrhyw faterion o ran ariannu'r cynllun gofal arfaethedig ac, os felly, erbyn pa ddyddiad y caiff y materion hynny eu datrys;
- (h) y cryfderau neu'r ffactorau cadarnhaol sy'n perthyn i'r claf;
- (i) crynodeb o gynnydd, ymddygiad, cydymffurfiaeth a dirnadaeth y claf ar hyn o bryd;
- (j) manylion unrhyw ddigwyddiadau lle mae'r claf wedi ei niweidio'i hun neu bobl eraill, neu wedi bygwth niwed, neu wedi difrodi eiddo, neu wedi bygwth difrod;
- (k) safbwyntiau, dymuniadau, credoau, barn, gobeithion a phryderon y claf;
- (l) ac eithrio mewn achosion cyfyngedig, barn Perthynas Agosaf y claf oni bai y byddai (ar ôl ymgynghori â'r claf) yn amhriodol neu'n anymarferol ymgynghori â'r Perthynas Agosaf, ac os felly rhaid rhoi rhesymau dros y farn honno a disgrifio unrhyw ymgais i unioni pethau;
- (m) barn unrhyw berson arall sy'n cymryd rhan flaenllaw yng ngofal a chymorth y claf ond nad yw'n ymwneud â'r claf yn broffesiynol;
- (n) a yw'r claf yn hysbys i unrhyw gyfarfod neu asiantaeth MAPPA ac, os felly, ym mha ardal, am ba reswm, ac ar ba lefel – ynghyd ag enw Cadeirydd unrhyw gyfarfod MAPPA sy'n ymwneud â'r claf, ac enw cynrychiolydd yr asiantaeth flaenllaw;
- (o) os bydd cyfarfod neu asiantaeth MAPPA yn dymuno cyflwyno tystiolaeth o'u barn ynglŷn â lefel y risg a rheoli'r risg, crynodeb o'r farn honno (neu gall Crynodeb Gweithredol gael ei atodi i'r adroddiad); a lle bo'n berthnasol, dylid atodi copi o'r cofnod o gollfarnau blaenorol oddi ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu;
- (p) yn achos claf cymwys sy'n cydymffurfio â'r gofynion ac sydd heb alluedd i gytuno neu i wrthwynebu cael ei gadw neu ei drin, a fyddai colli rhyddid o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (fel y'i diwygiwyd) yn briodol ac yn llai cyfyngol;
- (q) a oes cyfiawnhad dros gadw'r claf mewn ysbyty neu angen cadw'r claf mewn ysbyty (mewn achosion Adran 2), neu (ym mhob achos arall) a oes cyfiawnhad

dros roi triniaeth feddygol mewn ysbyty neu angen rhoi triniaeth feddygol mewn ysbyty, er budd iechyd neu ddiogelwch y claf, neu er mwyn amddiffyn pobl eraill;

- (r) a fyddai'r claf, pe bai'n cael ei ryddhau o'r ysbyty, yn debygol o weithredu mewn modd a fyddai'n beryglus i'r claf ei hun neu i bobl eraill;
- (s) a allai unrhyw risgiau gael eu rheoli'n effeithiol yn y gymuned, ac os felly, sut, gan gynnwys defnyddio unrhyw amodau cyfreithlon neu bwerau i alw'r claf yn ôl;
- (t) unrhyw argymhellion i'r tribiwnlys, gyda rhesymau.

## **(B) CLEIFION CYMUNEDOL**

- 15. At ddibenion y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn, mae claf yn Glaf Cymunedol os yw wedi ei ryddhau o'r ysbyty o dan adran 17A o'r Ddeddf yn ddarostyngedig i'r pŵer i alw'r claf yn ôl yn unol ag adran 17E. Mae'n cynnwys claf sydd wedi ei alw'n ôl i'r ysbyty ond nad yw ei CTO wedi ei ddiddymu yn unol ag adran 17F.
- 16. Yn ychwanegol at yr adroddiadau sy'n ofynnol yn unol ag Atodlen 1 i Ran B o'r Ddeddf rhaid i'r awdurdod cyfrifol ddarparu Adroddiad Nyrsio mewn perthynas â phob claf cymunedol. Dylai'r Adroddiad Nyrsio gael ei ysgrifennu gan y person proffesiynol sydd â'r priif gyfrifoldeb dros oruchwylio triniaeth y claf yn y gymuned. Os na chaiff yr Adroddiad ar Amgylchiadau Cymdeithasol na'r Adroddiad Nyrsio eu hysgrifennu gan Gydlynnydd Gofal y claf, dylai'r awdurdod cyfrifol hefyd ddarparu adroddiad gan y Cydlynnydd Gofal yn rhoi manylion llawn am sut mae ei swyddogaethau o dan adran 18 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 wedi eu cyflawni ynghyd â Chynllun Gofal a Thriniaeth diweddaraf y claf.

## **Datganiad Gwybodaeth am y Claf – Cleifion Cymunedol**

- 17. Yn ychwanegol at yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan Ran A o'r Atodlen i'r Rheolau, dylai'r Datganiad gynnwys hefyd:
  - (a) tabl cronolegol yn rhestru:
    - (i) dyddiadau unrhyw dderbyn i'r ysbyty, rhyddhau o'r ysbyty neu alw'n ôl i'r ysbyty yn flaenorol, gan nodi a oedd y derbyniadau yn orfodol ynteu'n wirfoddol, a chan gynnwys unrhyw enghreifftiau blaenorol o ryddhau'r claf i ddod o dan Orchymyn Triniaeth Gymunedol (CTO);
    - (ii) dyddiad y Gorchymyn neu'r Cyfarwyddyd sylfaenol ynghylch cadw'r claf yn yr ysbyty cyn i'r claf gael ei ryddhau i ddod o dan y CTO presennol;
    - (iii) dyddiad y CTO cyfredol;
    - (iv) dyddiadau unrhyw adnewyddiad dilynol yn yr awdurdod ar gyfer CTO y claf, neu newid yn yr awdurdod hwnnw, ac unrhyw newidiadau yn statws y claf o dan y Ddeddf;
    - (v) dyddiadau a chanlyniadau unrhyw wrandawiadau tribiwnlys dros y tair blynedd diwethaf;
  - (b) os yw'r claf wedi gwneud unrhyw gais am beidio ag ymgynghori â'i Berthynas Agosaf neu am beidio â hysbysu ei Berthynas Agosaf am ofal neu driniaeth y claf, manylion unrhyw gais o'r fath, a yw'r Awdurdod Cyfrifol o'r farn bod gan y claf alluedd i wneud cais o'r fath a'r rhesymau dros y gred honno
  - (c) enw a chyfeiriad unrhyw berson arall sy'n chwarae rhan arwyddocaol yng ngofal y claf ond nad yw'n ymwneud â'r claf yn broffesiynol;

- (d) manylion unrhyw achos cyfreithiol neu drefniadau eraill sy'n ymwneud â galluedd meddyliol y claf, neu allu'r claf i wneud penderfyniadau neu i drafod ei faterion ei hun.

### **Adroddiad y Clinigydd Cyfrifol – Cleifion Cymunedol**

- 18. Rhaid i'r adroddiad gynnwys, i'r graddau y mae'n gymwys, yr wybodaeth a nodir uchod mewn perthynas â chleifion mewnol ac, yn ychwanegol:
  - (a) pan fo'r claf yn 18 oed neu'n hŷn a bod yr achos yn atgyfeiriad at y tribiwnlys, a oes gan y claf alluedd i benderfynu a yw am fod yn bresennol neu gael ei gynrychioli mewn gwrandawriad tribiwnlys ai peidio;
  - (b) yr amgylchiadau yn arwain at ryddhau'r claf i ddod o dan CTO;
  - (c) yr amodau y cafodd y claf ei osod odanynt o dan Adran 17B pan roddwyd y CTO ar waith a manylion unrhyw amrywiad ar yr amodau hyn ers hynny;
  - (d) manylion am sut mae'r claf wedi cydymffurfio â'r amodau a osodwyd o dan Adran 17B ynghyd â manylion unrhyw enghreifftiau o alw'r claf yn ôl i'r ysbyty o dan adran 17E sydd heb arwain at ddiddymu'r CTO;
  - (e) unrhyw argymhellion i'r tribiwnlys, gyda rhesymau.

### **Adroddiad ar Amgylchiadau Cymdeithasol – Cleifion Cymunedol**

- 19. Rhaid i'r adroddiad gynnwys yr wybodaeth a nodir yn Rhan B o'r Atodlen i'r Rheolau, i'r graddau y mae'n gymwys yr wybodaeth sy'n ofynnol mewn perthynas ag adroddiadau cleifion mewnol fel y'i nodir ym mharagraff 14 uchod ac, yn ychwanegol, rhaid iddo gynnwys:
  - (a) Statws proffesiynol awdur yr adroddiad (e.e. AMHP, CPN), ei safle mewn perthynas â gofal a thriniaeth y claf yn y gymuned a manylion y cyswllt rhwng awdur yr adroddiad a'r claf ers i'r CTO gael ei roi ar waith;
  - (b) barn unrhyw berson arall sy'n ymwneud yn broffesiynol â gofal a thriniaeth y claf yn y gymuned;
  - (c) manylion am sut mae'r claf wedi cydymffurfio â'r amodau a osodwyd o dan adran 17B ac am unrhyw ddigwyddiadau lle mae'r claf wedi ei alw'n ôl i'r ysbyty o dan adran 17E ond lle nad yw'r CTO wedi ei ddirymu o dan adran 17F;
  - (d) a fyddai'r claf, pe bai'n cael ei ryddhau o'r CTO, yn debygol o weithredu mewn modd a fyddai'n beryglus i'r claf ei hun neu i bobl eraill;
  - (e) ym marn broffesiynol awdur yr adroddiad, a yw'n dal yn angenrheidiol i'r Clinigydd Cyfrifol allu arfer y pŵer i alw'r claf yn ôl ac, os felly, pam;
  - (f) unrhyw argymhellion i'r tribiwnlys, gyda rhesymau.

## **(C) CLEIFION GWARCHEIDIAETH**

20. At ddibenion y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn, Claf Gwarcheidiaeth yw unrhyw glaf sydd wedi ei dderbyn i Warcheidiaeth yn unol ag adran 7 o'r Ddeddf a phan nad yw'r Gorchymyn Gwarcheidiaeth wedi ei ollwng yn unol â naill ai adran 23 neu adran 6(4) o'r Ddeddf. Er mwyn osgoi amheuaeth mae'n cynnwys claf sydd, tra bo'r Gorchymyn Gwarcheidiaeth yn gyfredol, yn cael ei dderbyn i'r ysbyty yn anffurfiol i gael ei drin neu ei dderbyn i'r ysbyty o dan adrannau 2 neu 4 o'r Ddeddf
21. Yn ychwanegol at y Datganiad Gwybodaeth sy'n ofynnol o dan Ran A o'r Atodlen i'r Rheolau a'r adroddiadau sy'n ofynnol yn unol â Rhan B, mae'n ofynnol hefyd i'r awdurdod cyfrifol ddarparu Adroddiad Nyrsio gan Reolwyr unrhyw gyfleuster preswyl y mae'n ofynnol i'r claf fyw ynddo fel un o amodau'r Gorchymyn Gwarcheidiaeth.

### **Datganiad Gwybodaeth am y Claf – Cleifion Gwarcheidiaeth**

22. Ar ben yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan Ran A o'r Atodlen i'r Rheolau, dylai'r datganiad a ddarperir i'r tribiwnlys gynnwys hefyd:
- (a) tabl cronolegol yn rhestru:
    - (i) dyddiadau unrhyw dderbyn i'r ysbyty, rhyddhau o'r ysbyty neu alw'n ôl i'r ysbyty yn flaenorol, gan nodi a oedd y derbyniadau yn orfodol ynteu'n wirfoddol;
    - (ii) dyddiadau unrhyw enghreifftiau blaenorol o dderbyn y claf i warcheidiaeth;
    - (iii) dyddiadau a chanlyniadau unrhyw wrandawiadau tribiwnlys dros y tair blynedd diwethaf;
  - (b) a yw'r claf wedi gwneud unrhyw gais am beidio ag ymgynghori â'i Berthynas Agosaf neu am beidio â hysbysu ei Berthynas Agosaf am ofal neu driniaeth y claf ac, os felly, manylion unrhyw gais o'r fath, a yw'r Awdurdod Cyfrifol o'r farn bod gan y claf alluedd i wneud cais o'r fath a'r rhesymau dros y gred honno;
  - (c) manylion unrhyw achos cyfreithiol neu drefniadau eraill sy'n ymwneud â galluedd meddyliol y claf, neu allu'r claf i wneud penderfyniadau neu i drafod ei faterion ei hun.

### **Adroddiad y Clinigydd Cyfrifol – Cleifion Gwarcheidiaeth**

23. Ar ben yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan Ran A o'r Atodlen i'r Rheolau, rhaid i'r adroddiad gynnwys:
- (a) a oes unrhyw ffactorau a allai effeithio ar ddealltwriaeth neu allu'r claf i ymdopi â gwrandawriad ac a oes unrhyw addasiadau y gall y tribiwnlys eu hystyried er mwyn ymdrin â'r achos yn deg ac yn gyfiawn;
  - (b) manylion unrhyw drosedd(au) cyfeirio a hanes fforensig perthnasol arall;
  - (c) cronoleg yn rhestru ymwneud blaenorol y claf â'r gwasanaethau iechyd meddwl gan gynnwys unrhyw dderbyn i'r ysbyty, rhyddhau o'r ysbyty a galw'n ôl i'r ysbyty, ac unrhyw enghreifftiau blaenorol o dderbyn y claf i warcheidiaeth;



- (d) yr amgylchiadau yn arwain at dderbyn y claf i warcheidiaeth;
- (e) unrhyw ofynion y mae'r claf yn dod o danynt o dan Adran 8(1), a manylion am sut mae'r claf wedi cydymffurfio â nhw;
- (f) y cryfderau neu'r ffactorau cadarnhaol sy'n perthyn i'r claf;
- (g) crynodeb o gynnydd, ymddygiad, galluedd a dirnadaeth y claf ar hyn o bryd;
- (h) dealltwriaeth y claf o unrhyw feddyginiaeth ragnodedig, sut mae'n cydymffurfio â hi, a pharodrwydd tebygol y claf i'w derbyn yn y dyfodol neu i gydymffurfio ag unrhyw driniaeth feddygol briodol ar gyfer anhwylder meddyliol sydd ar gael neu a allai fod ar gael;
- (i) manylion unrhyw ddigwyddiadau lle mae'r claf wedi ei niweidio'i hun neu bobl eraill, neu wedi bygwth niwed, neu wedi difrodi eiddo, neu wedi bygwth difrod;
- (j) a yw'n angenrheidiol er lles y claf, neu er mwyn amddiffyn eraill, i'r claf aros o dan warcheidiaeth ac, os felly, pam;
- (k) unrhyw argymhellion i'r tribiwnlys, gyda rhesymau.

#### **Adroddiad ar Amgylchiadau Cymdeithasol – Cleifion Gwarcheidiaeth**

24. Ar ben yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan Ran B o'r Atodlen i'r Rheolau, dylai'r adroddiad gynnwys:
- (a) a oes unrhyw ffactorau a allai effeithio ar ddealltwriaeth neu allu'r claf i ymdopi â gwrandawriad ac a oes unrhyw addasiadau y gall y tribiwnlys eu hystyried er mwyn ymdrin â'r achos yn deg ac yn gyfiawn;
  - (b) manylion unrhyw drosedd(au) cyfeirio a hanes fforensig perthnasol arall;
  - (c) cronoleg yn rhestru ymwneud blaenorol y claf â'r gwasanaethau iechyd meddwl gan gynnwys unrhyw dderbyn i'r ysbyty, rhyddhau o'r ysbyty a galw'n ôl i'r ysbyty, ac unrhyw enghreifftiau blaenorol o dderbyn y claf i warcheidiaeth;
  - (d) unrhyw ofynion y mae'r claf yn dod o danynt o dan Adran 8(1), a manylion am sut mae'r claf wedi cydymffurfio â nhw,
  - (e) ymateb blaenorol y claf i gymorth cymunedol;
  - (f) manylion y cymorth cymunedol sydd ar gael, neu a allai fod ar gael, i'r claf, ynghyd â manylion y cynllun gofal cyfredol;
  - (g) pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r cynllun gofal ar hyn o bryd;
  - (h) a oes unrhyw faterion o ran ariannu'r cynllun gofal ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ac, os felly, erbyn pa ddyddiad y caiff y materion hynny eu datrys
  - (i) y cryfderau neu'r ffactorau cadarnhaol sy'n perthyn i'r claf;
  - (j) manylion unrhyw ddigwyddiadau lle mae'r claf wedi ei niweidio'i hun neu bobl eraill, neu wedi bygwth niwed, neu wedi difrodi eiddo, neu wedi bygwth difrod;
  - (k) safbwyntiau, dymuniadau, credoau, barn, gobeithion a phryderon y claf;
  - (l) barn y gwarcheidwad;

- (m) barn Perthynas Agosaf y claf oni bai y byddai (ar ôl ymgynghori â'r claf) yn amhriodol neu'n anymarferol ymgynghori â'r Perthynas Agosaf, ac os felly rhaid rhoi rhesymau dros y farn honno a disgrifio unrhyw ymgais i unioni pethau;
- (n) barn unrhyw berson arall sy'n cymryd rhan flaenllaw yng ngofal a chymorth y claf ond nad yw'n ymwneud â'r claf yn broffesiynol;
- (o) a yw'r claf yn hysbys i unrhyw gyfarfod neu asiantaeth MAPPA ac, os felly, ym mha ardal, am ba reswm, ac ar ba lefel – ynghyd ag enw Cadeirydd unrhyw gyfarfod MAPPA sy'n ymwneud â'r claf, ac enw cynrychiolydd yr asiantaeth flaenllaw;
- (p) os bydd cyfarfod neu asiantaeth MAPPA yn dymuno cyflwyno tystiolaeth o'u barn ynglŷn â lefel y risg a rheoli'r risg, crynodeb o'r farn honno (neu gall Crynodeb Gweithredol gael ei atodi i'r adroddiad); a lle bo'n berthnasol, dylid atodi copi o'r cofnod o gollfarnau blaenorol oddi ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu;
- (q) a allai unrhyw risgiau gael eu rheoli'n effeithiol yn y gymuned, ac os felly, sut;
- (r) a yw'n angenrheidiol er lles y claf, neu er mwyn amddiffyn eraill, i'r claf aros o dan warcheidiaeth ac, os felly, pam;
- (s) unrhyw argymhellion i'r tribiwnlys, gyda rhesymau.

### **Adroddiad Nyrsio – Cleifion Gwarcheidiaeth**

25. Dylai'r adroddiad gael ei baratoi gan Reolwr unrhyw gyfleuster preswyl y mae'n ofynnol i'r claf fyw ynddo fel un o amodau'r Gorchymyn Gwarcheidiaeth a dylai gynnwys:
- (a) natur unrhyw ofal nyrsio neu ofal arall a meddyginiaeth sy'n cael eu darparu i'r claf ar hyn o bryd;
  - (b) lefel y gwaith arsylwi sy'n gymwys i'r claf ar hyn o bryd, os oes arsylwi o gwbl;
  - (c) a oes gan y claf gysylltiad â pherthnasau, ffrindiau neu gleifion eraill, natur y rhyngweithio, a pha gymorth cymunedol sydd gan y claf;
  - (d) cryfderau neu ffactorau cadarnhaol sy'n perthyn i'r claf;
  - (e) crynodeb o gynnydd cyfredol y claf, ymwneud y claf â staff, ymddygiad, cydweithrediad, gweithgareddau, hunanofal a dirnadaeth y claf;
  - (f) unrhyw adegau pan fu'r claf yn absennol heb ganiatâd tra oedd o dan y Gorchymyn Gwarcheidiaeth;
  - (g) dealltwriaeth y claf o unrhyw feddyginiaeth, gofal neu driniaeth ragnodedig sydd ar gael, neu a allai fod ar gael, sut mae'n cydymffurfio â nhw, a pharodrwydd tebygol y claf i'w derbyn yn y dyfodol
  - (h) unrhyw argymhellion i'r tribiwnlys, gyda rhesymau.

## **(D) CLEIFION A RYDDHAWYD YN AMODOL**

26. At ddibenion y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn, claf sydd wedi ei ryddhau'n amodol yw claf sydd wedi ei ryddhau o'r ysbyty i'r gymuned, o dan yr amod y bydd y claf yn dal yn agored i gael ei alw'n ôl i'r ysbyty i gael triniaeth bellach, os bydd angen hynny. Gall amodau eraill gael eu gosod, yn ychwanegol, gan y tribiwnlys, neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol (y Weinyddiaeth Gyfiawnder).
27. Dim ond i gleifion cyfyngedig sydd wedi cael Rhyddhad Amodol mewn gwirionedd ac sy'n byw yn y gymuned y mae'r rhan hon yn gymwys. Yn achos claf cyfyngedig sy'n cael ei gadw yn yr ysbyty, gall y tribiwnlys wneud penderfyniad dros dro i orchymyn Rhyddhad Amodol. Cyn i'r tribiwnlys roi Rhyddhad Amodol yn y pen draw, gall ohirio ei benderfyniad er mwyn i drefniadau boddhaol gael eu rhoi ar waith. Oni bai a hyd nes y bydd y tribiwnlys yn rhoi Rhyddhad Amodol yn y pen draw, mae'r claf yn dal yn glaf mewnol, ac felly yr adran o'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn sy'n ymwneud â chleifion mewnol (ac nid y rhan hon) sy'n gymwys.
28. Pan hysbysir y Clinigydd Cyfrifol gan y Gweinidog dros Gyfiawnder am gais neu atgyfeiriad, rhaid i'r Clinigydd Cyfrifol anfon neu gyflwyno i'r Gweinidog Cyfiawnder Adroddiad y Clinigydd Cyfrifol, a rhaid i unrhyw Oruchwylydd Cymdeithasol anfon neu gyflwyno i'r Gweinidog Cyfiawnder yr Adroddiad ar Amgylchiadau Cymdeithasol. Os nad oes Goruchwylydd Cymdeithasol, dylai adroddiad y Clinigydd Cyfrifol hefyd ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol am amgylchiadau cymdeithasol. Hefyd, caiff y Clinigydd Cyfrifol anfon unrhyw adroddiad arall os yw adroddiadau o'r fath, ym marn y Clinigydd Cyfrifol, yn debygol o helpu'r Tribiwnlys pan fydd yn ystyried y mater. Dylai adroddiadau'r Clinigydd Cyfrifol a'r Goruchwylydd Cymdeithasol roi sylw i'r meini prawf a nodir ym mharagraff 57 yn **R(SC) v. MHRT [2005] EWHC 17 (Admin)**.

### **Datganiad Gwybodaeth – Cleifion a Ryddhawyd yn Amodol**

29. Dylai'r datganiad a roddir i'r Tribiwnlys gynnwys yr wybodaeth a nodir yn Rhan C o'r Atodlen i'r Rheolau.

### **Adroddiad y Clinigydd Cyfrifol – Cleifion a Ryddhawyd yn Amodol**

30. Dylai'r adroddiad gael ei ysgrifennu neu ei gydlofnodi gan Glinigydd Cyfrifol y claf. Os nad oes Goruchwylydd Cymdeithasol, dylai adroddiad y Clinigydd Cyfrifol hefyd ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol am amgylchiadau cymdeithasol. Ar ben yr wybodaeth a nodir yn Rhan D o'r Atodlen i'r Rheolau, rhaid i'r adroddiad gynnwys:
  - (a) a oes unrhyw ffactorau a allai effeithio ar ddealltwriaeth neu allu'r claf i ymdopi â gwrandawriad, ac a oes unrhyw addasiadau y gall y tribiwnlys eu hystyried er mwyn ymdrin â'r achos yn deg ac yn gyfiawn;
  - (b) manylion trosedd(au) cyfeirio y claf, ac unrhyw hanes ffforensig perthnasol arall;
  - (c) cronoleg yn rhestru ymwneud y claf â'r gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys unrhyw dderbyn i'r ysbyty, rhyddhau o'r ysbyty a galw'n ôl i'r ysbyty;
  - (d) y rhesymau dros unrhyw enghraifft flaenorol o alw'r claf yn ôl yn dilyn Rhyddhad Amodol a manylion unrhyw fethiant blaenorol i gydymffurfio ag amodau;

- (e) yr amgylchiadau yn arwain at y Rhyddhad Amodol presennol;
- (f) unrhyw amodau sydd wedi eu gosod ar hyn o bryd (ai gan y tribiwnlys ynteu'r Ysgrifennydd Gwladol), a'r rhesymau dros osod yr amodau;
- (g) manylion am sut mae'r claf yn cydymffurfio ag unrhyw amodau cyfredol;
- (h) manylion unrhyw achos cyfreithiol neu drefniadau eraill sy'n ymwneud â galluedd meddyliol y claf, neu allu'r claf i wneud penderfyniadau neu i drafod ei faterion ei hun
- (i) y cryfderau neu'r ffactorau cadarnhaol sy'n perthyn i'r claf;
- (j) crynodeb o gynnydd, ymddygiad, galluedd a dirnadaeth y claf ar hyn o bryd;
- (k) dealltwriaeth y claf o unrhyw feddyginiaeth ragnodedig, sut mae'n cydymffurfio â hi, a pharodrwydd tebygol y claf i'w derbyn yn y dyfodol neu i gydymffurfio ag unrhyw driniaeth feddygol briodol ar gyfer anhwylder meddyliol sydd ar gael neu a allai fod ar gael;
- (l) manylion unrhyw ddigwyddiadau lle mae'r claf wedi ei niweidio'i hun neu bobl eraill, neu wedi bygwth niwed, neu wedi difrodi eiddo, neu wedi bygwth difrod;
- (m) asesiad o brognosis y claf, gan gynnwys y risg a'r tebygolrwydd y bydd unrhyw anhwylder meddyliol yn ailddigwydd neu'n gwaethygu;
- (n) y risg a'r tebygolrwydd y bydd y claf yn aildroseddu a faint o niwed y gallai eraill fod yn agored iddo os bydd y claf yn aildroseddu;
- (o) a fyddai'r claf, pe bai'n cael ei ryddhau'n llwyr, yn debygol o weithredu mewn modd a fyddai'n niweidiol i'r claf ei hun neu i bobl eraill, a ellid rheoli unrhyw risgiau o'r fath yn effeithiol yn y gymuned ac, os felly, sut;
- (p) a yw'n dal yn briodol i'r claf aros yn agored i gael ei alw'n ôl i gael triniaeth feddygol bellach yn yr ysbyty ac, os felly, pam;
- (q) a yw'n ddymunol, ac os felly, i ba raddau y mae'n ddymunol, parhau unrhyw amodau sydd wedi eu gosod ar hyn o bryd, eu hamrywio a/neu ychwanegu atynt;
- (r) unrhyw argymhellion i'r tribiwnlys, gyda rhesymau.

### **Adroddiad ar Amgylchiadau Cymdeithasol – Cleifion a Ryddhawyd yn Amodol**

31. Ar ben yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan Ran D o'r Atodlen i'r Rheolau dylai'r adroddiad gynnwys y canlynol hefyd:
- (a) enw llawn, dyddiad geni, a chyfeiriad cyfredol y claf;
  - (b) enw swyddogol llawn yr Awdurdod Cyfrifol;
  - (c) a oes unrhyw ffactorau a allai effeithio ar ddealltwriaeth neu allu'r claf i ymdopi â gwrandawriad, ac a oes unrhyw addasiadau y gall y tribiwnlys eu hystyried er mwyn ymdrin â'r achos yn deg ac yn gyfiawn;
  - (d) manylion trosedd(au) cyfeirio y claf, ac unrhyw hanes fforensig perthnasol arall;
  - (e) cronoleg yn rhestru ymwneud y claf â'r gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys unrhyw dderbyn i'r ysbyty, rhyddhau o'r ysbyty a galw'n ôl i'r ysbyty;
  - (f) unrhyw amodau sydd wedi eu gosod ar hyn o bryd (ai gan y tribiwnlys ynteu'r Ysgrifennydd Gwladol), a'r rhesymau dros osod yr amodau;

- (g) manylion am sut mae'r claf wedi cydymffurfio ag unrhyw amodau yn y gorffennol neu'r presennol;
- (h) amgylchiadau cartref a theulu'r claf;
- (i) y cartref neu'r llety sydd ar gael ar hyn o bryd i'r claf;
- (j) sefyllfa ariannol y claf (gan gynnwys hawl i gael budd-daliadau);
- (k) unrhyw gyflogaeth neu gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer cyflogaeth;
- (l) manylion y cymorth cymunedol neu'r ôl-ofal Adran 117 sydd ar gael, neu a allai fod ar gael, i'r claf, ynghyd â manylion y cynllun gofal cyfredol;
- (m) a oes unrhyw faterion o ran ariannu'r cynllun gofal ar hyn o bryd neu yn y dyfodol ac, os felly, erbyn pa ddyddiad y caiff y materion hynny eu datrys;
- (n) pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r cynllun gofal ar hyn o bryd;
- (o) y cryfderau neu'r ffactorau cadarnhaol sy'n perthyn i'r claf;
- (p) crynodeb o gynnydd, cydymffurfiaeth, ymddygiad a dirnadaeth y claf ar hyn o bryd;
- (q) manylion unrhyw ddigwyddiadau lle mae'r claf wedi ei niweidio'i hun neu bobl eraill, neu wedi bygwth niwed, neu wedi difrodi eiddo, neu wedi bygwth difrod;
- (r) safbwyntiau, dymuniadau, credoau, barn, gobeithion a phryderon y claf;
- (s) barn unrhyw bartner, aelod o'r teulu neu gyfaill agos sy'n cymryd rhan flaenllaw yng ngofal a chymorth y claf ond nad yw'n ymwneud â'r claf yn broffesiynol;
- (t) a yw'r claf yn hysbys i unrhyw gyfarfod neu asiantaeth Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPa) ac, os felly, ym mha ardal, am ba reswm, ac ar ba lefel – ynghyd ag enw Cadeirydd unrhyw gyfarfod MAPPa sy'n ymwneud â'r claf, ac enw cynrychiolydd yr asiantaeth flaenllaw;
- (u) os bydd cyfarfod neu asiantaeth MAPPa yn dymuno cyflwyno tystiolaeth o'u barn ynglŷn â lefel y risg a rheoli'r risg, crynodeb o'r farn honno (neu gall Crynodeb Gweithredol gael ei atodi i'r adroddiad); a lle bo'n berthnasol, dylid atodi copi o'r cofnod o gollfarnau blaenorol oddi ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu;
- (v) a fyddai'r claf, pe bai'n cael ei ryddhau'n llwyr, yn debygol o weithredu mewn modd a fyddai'n niweidiol i'r claf ei hun neu i bobl eraill, a ellid rheoli unrhyw risgiau o'r fath yn effeithiol yn y gymuned ac, os felly, sut;
- (w) a yw'n dal yn briodol i'r claf aros yn agored i gael ei alw'n ôl i gael triniaeth feddygol bellach yn yr ysbyty ac, os felly, pam;
- (x) a yw'n ddymunol, ac os felly, i ba raddau y mae'n ddymunol, parhau unrhyw amodau sydd wedi eu gosod ar hyn o bryd, eu hamrywio a/neu ychwanegu atynt;
- (y) unrhyw argymhellion i'r tribiwnlys (gyda rhesymau).

**Adroddiadau gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â Chleifion a Ryddhawyd yn Amodol**

32. Yn unol â Rhan D o'r Atodlen i'r Rheolau bydd yr adroddiad yn cynnwys y canlynol:
- (a) Barn yr Ysgrifennydd Gwladol am addasrwydd y claf i gael ei ryddhau'n llwyr.

- (b) Unrhyw sylwadau eraill ar y cais y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn dymuno eu gwneud.

**(E) CLEIFION O DAN 18 OED**

33. Mae'r holl ofynion uchod mewn perthynas â datganiadau ac adroddiadau yn gymwys, fel y bo'n briodol, gan ddibynnu ar y math o achos
34. Yn unol â Chod Ymarfer Cymru 2016, os yw'r claf o dan 18 oed ac nad yw'r Clinigydd Cyfrifol yn arbenigwr CAMHS, bydd angen i'r Clinigydd Cyfrifol sicrhau bod adroddiad gan arbenigwr o'r fath yn cael ei ddarparu i'r Tribiwnlys.
35. Yn ychwanegol, *yn achos pob claf o dan 18 oed*, rhaid i'r **Adroddiad ar Amgylchiadau Cymdeithasol** nodi hefyd:
- (a) enwau a chyfeiriadau unrhyw bobl sydd â chyfrifoldeb rhiant, a sut y cawsant gyfrifoldeb rhiant;
  - (b) pa gyrff cyhoeddus sydd naill ai wedi cydweithio neu sydd angen cydgysylltu â'i gilydd mewn perthynas â gwasanaethau ôl-ofal a allai gael eu darparu o dan adran 117 o'r Ddeddf;
  - (c) canlyniad unrhyw gydgyssylltu sydd wedi bod;
  - (d) os nad oes cydgysylltu wedi bod, pam – a pha bryd y bydd y cydgysylltu' digwydd;
  - (e) manylion unrhyw gynllun gofal amlasiantaethol sydd ar waith neu a gynigir;
  - (f) a oes unrhyw faterion o ran ariannu'r cynllun gofal ac, os felly, erbyn pa ddyddiad y caiff y materion hynny eu datrys
  - (g) enw a manylion cysylltu Cydlynedd Gofal y claf, Nyrs Seiciatrig Gymunedol y claf, Gweithiwr Cymdeithasol/AMHP y claf neu Oruchwylydd Cymdeithasol y claf;
  - (h) a yw anghenion y claf wedi eu hasesu o dan Ddeddf Plant 1989, Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 neu Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac, os nad ydynt, y rhesymau pam na wnaed asesiad o'r fath ac a oes bwriad gwneud asesiad o'r fath;
  - (i) os oes asesiad o'r fath wedi ei wneud, pa anghenion neu ofynion a nodwyd a sut caiff yr anghenion neu'r gofynion hynny eu diwallu;
  - (j) os yw'r claf o dan Orchymyn Gofal neu Orchymyn Gofal Interim neu wedi bod o dan orchymyn o'r fath:
    - (i) dyddiad a hyd unrhyw orchymyn o'r fath;
    - (ii) enw'r awdurdod lleol perthnasol;
    - (iii) enw unrhyw berson(au) y mae'r awdurdod lleol yn rhannu cyfrifoldeb rhiant gyda nhw;
    - (iv) a oes unrhyw achos sydd heb ddod i ben eto ac, os felly, y llys lle mae'r achos yn digwydd a dyddiad y gwrandawriad nesaf;
    - (v) a yw'r claf yn dod o dan Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 neu Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
    - (vi) a oes unrhyw gydgyssylltu wedi bod rhwng, ar y naill law, gweithwyr cymdeithasol sy'n gyfrifol am wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc ac, ar y llaw arall, y rhai sy'n gyfrifol am wasanaethau o'r fath i oedolion;

- (vii) enw'r gweithiwr cymdeithasol yn yr awdurdod lleol perthnasol sy'n cyflawni swyddogaeth y Perthynas Agosaf o dan Adran 27 o'r Ddeddf;
- (k) os yw'r claf o dan warcheidiaeth o dan Adran 7 o'r Ddeddf, a oes unrhyw orchmynion wedi eu gwneud o dan Ddeddf Plant 1989 mewn perthynas â'r claf, a pha ymgynghori sydd wedi bod gyda'r gwarcheidwad;
- (l) os yw'r claf yn Ward Llys, pa bryd y cafodd y claf ei wneud yn ward llys a pha gamau a gymerwyd i hysbysu'r llys a oedd a wnaeth y gorchymyn am unrhyw gamau arwyddocaol a gymerwyd, neu sydd i'w cymryd, mewn perthynas â'r claf;
- (m) a oes unrhyw orchmynion eraill o dan Ddeddf Plant 1989 yn bodoli mewn perthynas â'r claf ac, os felly, manylion y gorchmynion hynny, ynghyd â'r dyddiad y gwnaed y gorchmynion hynny, ac a ydynt yn orchmynion terfynol ynteu'n orchmynion interim;
- (n) os bu neu os yw claf yn blentyn sy'n derbyn gofal o dan naill ai adran 20 o Ddeddf Plant 1989 neu adran 76 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, pa bryd y daeth y plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal, pam y daeth yn blentyn sy'n derbyn gofal, pa gamau a gymerwyd i benodi ymwelydd annibynnol i'r plentyn o dan adran 16 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 neu o dan adran 98 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a pha gamau sy'n cael eu cymryd (os oes eu hangen) i gyflawni rhwymedigaethau'r awdurdod lleol o dan baragraff 10(b) o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989 neu adran 39(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- (o) os yw claf wedi ei drin gan awdurdod lleol fel plentyn mewn angen (sy'n cynnwys plentyn sydd ag anhwylder meddyliol) o dan adran 17(11) o Ddeddf Plant 1989, y cyfnod neu'r cyfnodau y cafodd y plentyn ei drin felly, pam y barnwyd ei fod yn blentyn mewn angen, pa wasanaethau a oedd ar gael neu sydd ar gael i'r plentyn yn rhinwedd y statws hwnnw, a manylion unrhyw asesiad o'r plentyn;
- (p) os bu claf o dan orchymyn llety diogel o dan Adran 25 o Ddeddf Plant 1989, y dyddiad y gwnaed y gorchymyn, y rhesymau dros ei wneud, a'r dyddiad y daeth i ben;
- (q) os yw claf yn blentyn y darparwyd llety iddo o dan Adrannau 85 ac 86 o Ddeddf Plant 1989, pa gamau a gymerwyd gan yr awdurdod lletya neu'r person sy'n rhedeg y sefydliad o dan sylw i gyflawni ei gyfrifoldebau hysbysu, a pha gamau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol i gyflawni ei rwymedigaethau o dan adrannau 85, 86 ac 86A o Ddeddf Plant 1989.

## ATODIAD

### MENTAL HEALTH REVIEW TRIBUNAL FOR WALES RULES 2008

#### **RULE 15 Statements, reports and documents**

- (1) Subject to Rule 17 (withholding documents or information likely to cause harm), when the Tribunal receives a document from any party it must send a copy of that document to each other party.
- (2) When the Tribunal receives an application or reference it must send to the responsible authority or the Secretary of State, as the case may be, a request for the documents and information required to be provided under paragraph (3), (4) or (5).
- (3) In proceedings under section 66 (1) (a) of the Act (application for admission for assessment), on the earlier receipt of the copy of the application or receipt of a request from the Tribunal, the responsible authority must send or deliver to the Tribunal by the commencement of the hearing –
  - (i) the application for admission;
  - (ii) the written medical recommendation or recommendations, as the case may be, of the registered medical practitioners on which the application is founded;
  - (iii) such of the information specified in Part A of the Schedule as is within the knowledge of the responsible authority and can reasonably be provided in the time available; and
  - (iv) such of the reports specified in Part B of the Schedule as can reasonably be provided in the time available.
- (4) If the patient is a conditionally discharged patient the Secretary of State shall send to the Tribunal as soon as practicable, and in any event within 6 weeks of receipt by the Secretary of State of a copy of the application or request from the Tribunal, a statement which shall contain –
  - (a) the information specified in Part C of the Schedule, in so far as it is within the knowledge of the Secretary of State; and
  - (b) the reports specified in Part D of the Schedule, in so far as it is reasonable practicable to provide them.
- (5) If neither paragraph (3) nor (4) applies, the responsible authority must send a statement to the Tribunal as soon as reasonably practicable, and in any event within 3 weeks of receipt by the responsible authority of a copy of the application or receipt of a request from the Tribunal, a statement which shall contain –



- (a) the information specified in Part A of the Schedule, in so far as it is within the knowledge of the responsible authority;
  - (b) the report specified in paragraph 1 of Part B of that Schedule; and
  - (c) the other reports specified in Part B of the Schedule, in so far as it is reasonably practicable to provide them.
- (6) If the patient is a restricted patient the responsible authority must also send the statement under paragraph (5) to the secretary of State, and the Secretary of state must send a statement of any further relevant information to the Tribunal as soon as reasonably practicable and in any event –
- (a) in proceedings under section 75 (1) of the Act, within 2 weeks of receipt by the Secretary of State of the relevant authority’s statement; or
  - (b) otherwise, within 3 weeks of receipt by the Secretary of State of the relevant authority’s statement.
- (7) If the Welsh Ministers or Secretary of State wish to seek the approval of the Tribunal under section 86 (3) of the Act, the Welsh Ministers or Secretary of State, as the case may be, must refer the patient’s case to the Tribunal and the provisions of these Rules applicable to references under the Act apply to the proceedings.

## **SCHEDULE**

### **STATEMENTS BY THE RESPONSIBLE AUTHORITY AND THE SECRETARY OF STATE**

#### **Part A Information about patients (other than conditionally discharged patients)**

1. The patient’s full name (and any alternative names used in patient records).
2. The patient’s date of birth and age.
3. The patient’s language of choice and, if it is not English or Welsh, whether an interpreter is required.
4. The application, order or direction made under the Act to which the tribunal proceedings relate and the date on which that application, order or direction commenced.
5. Details of the original authority for detention or guardianship of the patient, including the statutory basis for that authority and the details of any subsequent renewal of or change in that authority.
6. In cases where a patient has been transferred to hospital under section 45A, 47 or 48 of the Act, details of the order, direction or authority under which the patient was being held in custody before his transfer to hospital.

7. Except in relation to a patient subject to guardianship or after-care under supervision, or a community patient, the hospital or hospital unit at which the patient is presently liable to be detained under the Act, and the ward or unit on which he is presently detained.
8. If a condition or requirement has been imposed that requires the patient to reside at a particular place, details of the condition or requirement and the address at which the patient is required to reside.
9. In the case of a community patient, details of any conditions attaching to the patient's community treatment order under section 17B (2) of the Act.
10. The name of the patient's responsible clinician and the length of time the patient has been under their care.
11. Where another approved clinician is or has recently been largely concerned in the treatment of the patient, the name of that clinician and the period the patient has spent in that clinician's care.
12. The name of any care coordinator appointed for the patient.
13. Where the patient is subject to the guardianship of a private guardian, the name and address of that guardian.
14. Where there is an extant order of the superior court of record established by section 45 (1) of the Mental Capacity Act 2005, the details of that order.
15. Unless the patient requests otherwise, the name and address of the person exercising the functions of the nearest relative of the patient.
16. Where a local health board, a National Health Service trust, a primary care trust, a NHS Foundation Trust, a Strategic Health Authority, the Welsh Ministers or the Secretary of State has or have a right to discharge the patient under the provisions of section 23 (3) of the Act, the name and address of such board, trust, authority, person or persons.
17. In the case of a patient subject to after-care under supervision, the name and address of the local social services authority and NHS body that are responsible for providing the patient with after-care under section 117 of the Act, or will be when he leaves hospital.
18. The name and address of any person who plays a substantial part in the care of the patient but who is not professionally concerned with it.
19. The name and address of any other person who the responsible authority considers should be notified to the Tribunal.

**Part B      Reports relating to patients (other than conditionally discharged patients)**

1. An up to date clinical report, prepared for the Tribunal, including the relevant clinical history and a full report of the patient's mental condition.
2. An up to date social circumstances report prepared for the Tribunal including reports on the following –
  - (a) the patient's home and family circumstances, including the views of the patient's nearest relative or person so acting;
  - (b) the opportunities for employment or occupation and the housing facilities which would be available to the patient if discharged;

- (c) the availability of community support and the relevant medical facilities;
  - (d) the financial circumstances of the patient.
3. The views of the responsible authority on the suitability of the patient for discharge.
  4. Where the provisions of section 117 of the Act may apply to the patient, a proposed after-care plan in respect of the patient.
  5. Any other information or observations on the application which the responsible authority wishes to make.

### **Part C Information about conditionally discharged patients**

1. The patient's full name (and any alternative names used in patient records).
2. The patient's date of birth and age.
3. The patient's language of choice and, if it is not English or Welsh, whether an interpreter is required.
4. The history of the patient's present liability to detention including details of the offence or offences, and the dates of the original order or direction and of the conditional discharge.
5. The name and address of any clinician responsible for the care and supervision of the patient in the community, and the period that the patient has spent under the care and supervision of that clinician.
6. The name and address of any social worker or probation officer responsible for the care and supervision of the patient in the community and the period that the patient has spent under the care and supervision of that person.

### **Part D Reports relating to conditionally discharged patients**

1. Where there is a clinician responsible for the care and supervision of the patient in the community, an up to date report prepared for the Tribunal including the relevant medical history and a full report on the patient's mental condition.
2. Where there is a social worker, probation officer or community psychiatric nurse responsible for the patient's care and supervision in the community, an up to date report prepared for the Tribunal on the patient's progress in the community since discharge from hospital.
3. A report on the patient's home circumstances.
4. The views of the Secretary of State on the suitability of the patient for absolute discharge.
5. Any other observations on the application that the Secretary of State wishes